# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones



Rhifyn 47 - Haf 2022

# GOLYGYDDOL

Gobeithio y gwnewch fwynhau y rhifyn hwn o Llygad Barcud. Yn anffodus, y mae yn rhaid i ni adrodd unwaith eto am golli aelod a ffrind. Bu Alun Garth Owen yn aelod a chefnogwr ffyddlon ers blynyddoedd a bydd bwlch mawr ar ei ôl ar ein teithiau. Yr oedd cael cwmni Alun bob amser yn bleser; yr oedd yn gwmni difyr iawn ar ein teithiau a chanddo stôr o straeon difyr i'w hadrodd am ei brofiadau ac am fyd natur. Anfonwn ein cydymdeimlad dwys i Mair a'r hogiau.

Dyma wanwyn arall wedi mynd heb i ni allu trefnu taith, heb iddi fod dan gwmwl y Covid, sydd wedi aros yn hir. Cadwch olwg ar eich e-bost ac ar ein gwefan.

Yn y rhifyn hwn, gwelwch hanes y datblygiadau ym Mhont Croesor. Fe wnaeth Cymdeithas Ted gyfrannu £1,000 tuag at yr ymgyrch i godi pres i adeiladu Cuddfan J.P. a chael mainc arbennig er cof am un a wnaeth gymaint i ni fel cymdeithas ac i achos gweilch y pysgod yng Nghymru.

**Llun y clawr**: Gwalch y pysgod – Bywyd Gwyllt Glaslyn
**Llun y cefn:** Iolo Williams ar fainc goffa John Parry


**Swyddogion**

**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams ac Annwen Breeze Jones
**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@gmail.com)
**Trysorydd:** Huw Dafydd
**Ysgrifennydd**: Gareth Jones, Bryn Eithin, Yr Ala, Pwllheli LL53 5BN, 01758 614470
**Golygyddion Llygad Barcud**: Twm Elias a Gareth Jones (pwllheli@gmail.com)
**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol:** gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk


## Cynnwys:


Adar Patagonia (rhan 1) *Twm Elias* ........ 3

Alun Garth Owen ........ 11

Adar a Chwedloniaeth (rhan 2) *Rhodri Dafydd* ........ 12

Gweilch Glaslyn yn Dathlu Degawd *Gwenan Williams* ........ 19



Cynigir **10%** o ostyngiad i aelodau'r Gymdeithas yn siop **Cotswold, Betws-y-coed**


Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud
**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**
Edrychwch ar yr holl luniau o'n teithiau ar
**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk/lluniau.html**

# Adar Patagonia (i)



Anodd oedd gwrthod cynnig o ymweliad pedwar mis â Phatagonia pan gafodd Rhiannon, y ferch, a Delyth, y wraig, gynnig swyddi dros dro yn Ysgol Feithrin a Chynradd Gymraeg y Gaiman. Fy ngwaith i yn eu sgîl fyddai helpu efo'r ddau fach – Morgan yn ddyflwydd a Dylan yn bump a thri chwarter. Ryw benderfyniad byrfyfyr oedd o mewn gwirionedd, felly dim llawer o amser i baratoi'n drylwyr. Roeddem yn gwybod y byddem yn gadael ein gaeaf ni ddechrau Mawrth am eu hydref/gaeaf nhw. Tipyn o sioc, felly, oedd cyrraedd ar ôl taith hir a blinderus i dymheredd ganol y 20°au, a hyd at 30°-32°C ganol y mis. Oeri ddeupen y dydd wedyn, ac oer a chynnes bob yn eilddydd erbyn dechrau Ebrill. Cael y ffliw, neu yr 'annwyd newid tywydd' fel mae nhw'n ei alw yma, ond yn iawn erbyn diwedd Ebrill.

Pobl yn eithriadol o groesawgar ac yn mynd allan o'u ffordd i'n helpu ymhob ffordd bosib. Lwcus o gael benthyg llyfr adar safonol (Sbaeneg), gyda mapiau dosbarthiad (sydd yn help mawr) ar adar Patagonia gan Yfon Owen. Y gyfrol hon yn cyd-fynd yn dda â chyfrol fechan ar adar gorllewin Chubut gefais yn anrheg gan Rhodri Dafydd flynyddoedd yn ôl. Bûm yn trosglwyddo'r enwau Cymraeg o restr Enwau Adar y Byd i gyfrol Rhodri, a byddaf yn gadael fersiwn ddigidol ohoni yma yn y Wladfa.

Roedd y boreau yn rhydd tra byddai'r ddau fach yn yr ysgol, felly cyfle i grwydro'r paith, parciau'r dref a'r tir amaeth oedd o fewn cyrraedd ar lawr Dyffryn Camwy. Cynrychiolaeth dda o adar ond peth wmbreth o bethau bach brown mewn heidiau, a rheiny yn ddigon swil ac yn gwrthod aros yn eu hunfan am fwy na 'chydig eiliadau. Mae'n debyg mai am fod sawl math o gudyll, hebog, a characara bychan yn eu hela oedd hynny.

Roedd sawl aderyn ar fy rhestr i'w gweld, megis y gornchwiglen, ibis (gylfinir y gwladfawyr cynnar), rhea (estrys y gwladfawyr), fflamingo, pengwin ac, wrth gwrs, mathau o'r caracara, sef aderyn ysglyfaethus sy'n nodweddiadol o dde America. Ni chefais fy siomi yn y rhain gan lwyddo hefyd i ymestyn fy rhestr adaryddol yn sylweddol i gynnwys adar nad

oeddwn yn gwybod dim amdanynt cynt. Llwyddais i gael lluniau efo'm camera bach o'r rhan fwyaf – mi fydd darlith ichi pan gyrhaeddaf adra.

Cyrraedd Buenos Aires yn gynnar iawn ar fore Sadwrn, a phawb wedi blino'n lân. Dim awyren i Drelew tan yn gynnar fore Sul, felly gwesty am y dydd a hwnnw ddim ar gael inni tan amser cinio. O leiaf fe gawsom gadw ein bagiau yn y dderbynfa a threulio rhai oriau y tu allan mewn maes chwarae, oedd yn fendith i'r plant. Dyma gael cyfle am luniau o gornchwiglod yn y cae gerllaw. Cornchwiglen de America *(Vanellus chilensis)* oedd hon, sydd yn fwy ac yn dalach na'n un ni, efo cefn a phen llwyd, wyneb a bron ddu, cudyn bach o blu ar gefn y pen, a'i hosgo yn debyg iawn i'n rhai ni yng Nghymru.



*Y gornchwiglen*

Cyrraedd maes awyr Trelew (oedd yn brofiad eitha' emosiynol) pan gawsom ein cyfarfod gan dri o Gymry, gyda'u hacen Batagonaidd fendigedig, oedd wedi dod â char a phicyp i'n hebrwng ni a'n bagiau yr hanner awr o daith i'r Gaiman. Roeddem i aros yn Nhŷ Camwy am y pedwar mis, sef y llety i athrawon o Gymru fu'n dod yma dros y blynyddoedd. Croeso mawr arall yno, a chacennau lu.

Fe gymerodd rai dyddiau inni setlo a dod i nabod y dre a rhai o'i phobl. Manteisiais innau ar y boreau i ddechrau cyfarwyddo â'r paith a'r bywyd gwyllt. Mae'n rhaid bod y fintai gynta' a laniodd oddi ar y Mimosa yn 1865 wedi cael andros o sioc wrth weld y paith diddiwedd. Anghyfannedd go iawn gyda thrwch o gerrig mân yn gorchuddio daear sych grimp, a llwyni anfwytadwy hyd y gorwel. Byddai'n amhosib ffermio'r fath le, ond wrth lwc, wedi symud deugain milltir i'r de, fe lwyddasant i gael trefn a bywoliaeth ar lawr Dyffryn Camwy. Buont yn gweithio'n galed i ddyfrio a thrin y pridd gwell yno. Ni fuasent wedi llwyddo heb help gan y Techwelche lleol a llywodraeth yr Ariannin.

Wrth grwydro bryniau'r paith, gweld sawl caracara bychan, sef y

caracara tsimango (*Milvago chimango*). Hwn yw'r lleiaf o'r teulu ac roedd i'w weld yn hedfan yn bwrpasol, mewn llinell syth dros y paith, gan ddangos clytiau golau yn agos i flaen pob adain ac ar ochr ucha'r gynffon. Y tsimango yn debyg o ran ei liw i'n bwncath ni ond ychydig llai o faint, a'i adenydd 'chydig yn gulach gyda blaenau gweddol grwn. Golyga hynny ei fod yn dal ei brae drwy ystwythder ei ehediad yn hytrach na chyflymder. Roedd ei fwydlen, fel ein bwncath ni, yn eitha' amrywiol – adar bach, pryfetach a chelanedd.



*Tsimango yn y llain oedd yn cael ei dyfrio*

Roeddent yn fwyaf niferus ar y ffermydd ar lawr y dyffryn pan fyddai ffermwr yn dyfrio llain o dir. Golygai hynny gymryd rhaw i agor bwlch yn y ddyfrffos redai ar hyd ymyl y cae, gan adael i'r dŵr lifo dros wyneb llain o dir, ryw acer o faint, oedd wedi ei hamgáu gan gefnau syth o bridd, lai na throedfedd o uchder, i gadw'r dŵr o fewn y llain. Byddai'r lleiniau yn gyfres gyfochrog ar hyd y cae ac yn cael eu dyfrio am ryw ddiwrnod, un ar ôl y llall, i dyfu cnydau megis alfalfa, gwair, neu lysiau ayyb.

Roedd yn drawiadol gweld, wrth i'r dŵr ymledu'n raddol dros wyneb y llain, gan styrbio sboncod gwair a thrychfilod eraill, ugeiniau o tsimangos yn cerdded yn araf o flaen y dŵr yn gwledda. Byddai sawl cornchwiglen yn eu mysg hefyd, ac ambell ibis wynepwyn *(Plegadis chihi)*.

Man arall lle gwelais nifer dda o dsimangos oedd caeau lle cedwid defaid. Yma byddai ambell furgyn, neu gorff dafad. Doedd dim raid i'r ffarmwr drafferthu i waredu'r corff, fel sy'n rheidrwydd cyfreithiol yng Nghymru, am y byddai'r tsimangos yn llnau'r esgyrn yn lân, ynghyd â'r fwlturiaid pengoch *(Cathartes aura)* sydd hefyd yn niferus drwy'r ardal. Gwaith taclus a thrylwyr, ac yn cadw'r tir yn lân a iach.

Rhan arall o gynhaliaeth amrywiol y tsimango yw hela a dal adar


Tsimangos a dwy gornchwiglen

bychain. Mae'n aelod o deulu'r hebogiaid *(Falconidae)* wedi'r cyfan, er nad yw ei adenydd yn flaenfain fel mwyafrif y teulu hwnnw. Gwelais rai yn pluo a bwyta adar to ar ben polyn letrig yn y Gaiman. Roedd pen gwastad polyn letrig yn amlwg yn un o'u hoff safleoedd i giniawa. Ac ydynt, mae adar to Ewropeaidd yn frith drwy'r dref.


*Y gwatwarwr aelwyn*

Adar cyffredin iawn drwy'r ardal yw'r gwatwarwyr (*Calandria* yn Sbaeneg) sy'n aelodau deheuol o deulu'r *mocking bird* Americanaidd. Roedd dau fath ohonynt: y gwatwarwr aeliog *(Mimus saturninus)* oedd yn fwy o faint ac yn niferus yn y dref a'r cyffiniau, a gwatwarwr y paith *(Mimus patagonicus)* oedd yn llai a mwy niferus y tu allan i'r dref. Roedd y ddau hefyd yn barotach eu cân allan ar y paith, yn hytrach nag yn y dref. Mae ganddynt ganeuon cyfoethog ac amrywiol iawn, ac yn dueddol o watwar adar eraill i ychwanegu at eu *repertoire*, sy'n cyfrif am eu henw. Byddwn innau yn chwibanu nodau, ac weithiau deuai'r un aeliog yn nes i wrando'n ddistaw, ond wnaeth o ddim fy nynwared chwaith.


*Gwatwarwr y paith*

Cantor gwych arall, ond yn fwy cyfyng ei gân, oedd y **cardinal cribgoch** *(Paroaria coronata)*. Deryn bywiog, ron' bach mwy na

ji binc, efo pen a chrib goch lachar a chefn llwyd yn pigo hadau dan y coed. Hwn oedd y mwyaf lliwgar a thrawiadol welais o adar y Gaiman, ac mae'n rhaid ei fod yn ddigon effro a sgut i ddiflannu i lwyni trwchus pan ddeuai tsimango heibio.



*Cardinal cribgoch yn bwydo cyw*

Profiad bythgofiadwy oedd teithio i Punta Tombo ar yr arfordir, ryw 100 km i'r de o Ddyffryn Camwy. Yma ceir gwarchodfa natur arfordirol bwysig i fywyd gwyllt, ond yn arbennig i'r niferoedd enfawr o bengwiniaid Magellan *(Spheniscus magellanicus)* ddaw yma i nythu bob blwyddyn. Pengwin gweddol fychan yw'r Magellan, yn sefyll ryw 61-76cm o daldra ac yn nythu mewn cyfres o nythfeydd ar hyd arfordir yr Ariannin, cyn belled i'r gogledd â Phenrhyn Valdez ger Porth Madryn. Maent yn nythu ar arfordir Chile yn ogystal.

Nythfa Punta Tombo yw'r fwyaf yn yr Ariannin, a bu i'w phoblogaeth amrywio yn arw dros y deugain mlynedd aeth heibio. Roedd tua miliwn o adar yma yn 1982, cyn i'w niferoedd gwympo'n drychinebus wedi hynny (oherwydd gor-bysgota ac achosion drwg o lygredd olew) i tua 400,000 yn 1999. Ers hynny, er mwyn amddiffyn yr adar, dynodwyd y môr oddi amgylch yn rhan o'r warchodfa, ac mae'r niferoedd eto wedi cyrraedd oddeutu miliwn o adar.

Mae'n safle sy'n denu llawer iawn o dwristiaid yn anterth y tymor nythu, ond pan ymwelon ni, ddechrau Ebrill 2022, roedd mwyafrif yr oedolion eisoes wedi ymadael am y gogledd, lle byddent yn gaeafu am y chwe mis nesa oddi ar arfordiroedd Wrwgwai a Brasil. Y cywion oedd y mwyafrif oedd ar ôl, yn gorffen bwrw'u manblu. Golwg ddigon blêr ar y rhan fwyaf,



*Golygfa gyffredinol dros y nythfa*



*Oedolyn, neu gyw wedi gorffen bwrw'i blu*



*Cyw blêr yn bwrw'i blu*

a'r plu bach brown yn chwythu i bobman ar y gwynt.

Roedd yn ddiwrnod poeth, a'r cywion yn gorweddian neu sefyllian yn gysglyd yn y cysgod i arbed egni. Fydden nhw ddim yn cael bwyd eto tan y byddent wedi gorffen bwrw'u manblu ac yn mynd i'r môr i ddal eu bwyd eu hunain. Cyn diwedd Ebrill, disgwylir y bydd y cwbwl wedi gadael am y môr.



*Ar lan y dŵr yn meddwl am fynd*

Roedd llwybrau penodedig i'w dilyn, a nifer o bontydd troed, ryw 4 troedfedd o uchder, i'w croesi dros be oedd yn amlwg yn draffyrdd pengwiniaid yn y prif dymor nythu. Byddai'r llwybrau hyn yn brysur iawn, wrth i un rhiant ddod o'r môr efo llond bol o bysgod i'r cywion, a'r rhiant arall fu'n eu gwarchod yn mynd, bob yn ail, i nôl mwy. Wrth lwc, doedd y pontydd ddim yn amharu o gwbl ar y traffig bwydo, ac erbyn hyn yn



*Cysgodi dan un o'r pontydd troed*




fannau cysgodi cyfleus i'r cywion oedd yn bwrw'u plu.

Yn y ganolfan ddehongli, cyn cychwyn ar ein taith rownd y warchodfa, roedd cyfrol Sbaenaidd ar fyd natur, oedd tua canrif a mwy oed, yn rhoi sylw i darddiad yr enw pengwin. *'¿Por que se llaman Pinguinos?'* (Pam yr enw Pengwin?). Cyfeiria at y *'navigantes ingleses'* roddodd yr enw iddynt am fod yr adar yn debyg i'r *'GRAN ALCA'*, sef y carfil mawr gogleddol. Hwn oedd y 'pengwyn' gwreiddiol a elwid am y patrwm du a gwyn ar ei ben - rhywbeth oedd yn ei wneud yn wahanol i'r carfilod eraill. Roedd yn aderyn mawr ac ni allai hedfan. Dim rhyfedd i adar y de gael eu galw ar ei ôl.

Gwyddwn mai Francis Drake, wrth hwylio rownd y Penrhyn yn Awst 1578, oedd y *'navigates ingleses'* dan sylw, ac i'r enw *penguin* ymddangos yn ysgrifenedig am y tro cyntaf erioed yn llyfr log ei long, y Golden Hind: *'numerous were the foule the Welchmen call Penguin'*.

Nid oedd Magellan, oedd y cyntaf i hwylio yma yn 1520, wedi rhoi enw ar yr adar hyn, ond yn ddiweddarach, bu i'r math o bengwin sy'n nythu yn Punta Tombo gael ei enwi ar ei ôl, sef *Spheniscus magellanicus.*

Difyr meddwl, am i ffurfiau o'r enw Cymraeg gwreiddiol, 'pengwyn', gael eu haddasu a'u hymgorffori i gymaint o ieithoedd y byd, nes ei fod, mae'n debyg, y gair neu ddisgrifiad Cymraeg lletaf ei ddosbarthiad drwy'r byd. Dylsem ymfalchïo yn hynny.

**Twm Elias**

(i'w barhau….)

# Alun Garth Owen (1952 – 2022)



Fel 'Alun Bont-ddu' y byddai llawer yn adnabod Alun. Yno, yn nhyddyn bychan Llech-fraith yng Nghwm Hirgwm, y cafodd ei eni cyn i'w rieni symud i'r pentref i gadw Tŷ Capel Bethania.

Roedd y gwreiddiau hynny'n bwysig iawn iddo. Ef oedd cof y teulu, yr achau'n fyw ganddo, a stôr o straeon ac atgofion am bobl a chymeriadau'r fro yn byrlymu ohono.

Ar ôl ymadael â'r ysgol, aeth ati i addysgu ei hun mewn amryfal feysydd, a datblygodd ddiddordeb mewn byd natur, llên gwerin, a hanes a thraddodiadau ei bobl.

Yr oedd yn aelod selog a brwdfrydig o Gymdeithas Ted, ac yr oedd yn naturiaethwr naturiol a gwybodus. Ar ein teithiau, Alun fyddai un o'r selogion hynny fyddai wedi teithio bellaf i ymuno efo ni.

Bu Mair ac yntau'n ofalwyr ar Enlli, gan dreulio dwy flynedd anghymharol ar yr ynys oedd mor agos at galonnau'r ddau. Dyna'r unig gyfnod yn ei fywyd iddo adael Meirionnydd.

Daeth cyfarfod â Mair Tomos Ifans, a phriodi, â llawenydd mawr i'w fywyd, ac ymgartrefodd y ddau yn Ninas Mawddwy. Yn goron ar y cyfan, daeth Osian ac Elis i lenwi ei fywyd. Roedd bod yn ŵr a thad cariadus, balch a gofalgar yn sylfaen i bob dim arall.

Bu farw yn Ysbyty Bronglais, ar Ebrill $22^{ain}$.

> Roedd addfwynder yr erwau – yn ei wên,
> Tywynnai drwy'n sgyrsiau,
> A gardd o Gymraeg yn gwau
> Yn faledi o flodau.
>
> **Rhys Gwynn**

Roedd y dyrfa fawr a ddaeth i ddathlu ei fywyd yng Nghapel Ebeneser yn tystio i'w boblogrwydd, a'r parch oedd gan bawb tuag ato.

# Adar a Chwedloniaeth (rhan 2)

## O'r Canol Oesoedd hyd heddiw

**Adroddiadau ysgrifenedig**

O'r amser y cofnodwyd chwedlau a straeon yn ysgrifenedig am y tro cyntaf, fe ddaethant yn elfen barhaol ym mytholeg ein diwylliant. Mae'r cofnod ysgrifenedig cyntaf am aderyn yng Nghymru, fel a nodwyd yn rhan 1 o'r gyfres hon *(Llygad Barcud 46),* yn ymddangos yn y Cyfreithiau Cymreig (Cyfraith Hywel Dda, oddeutu 945 O.C.). Dros y canrifoedd a ddilynodd, daeth cyfeiriadau at adar yn fwy cyffredin. Mae'n debyg bod gwreiddiau llawer o'r cyfeiriadau hyn yn chwedlonol a hynafol iawn, ac yn dyddio o'r cyfnod Celtaidd, cyn-Gristnogol: er enghraifft, rhai o'r motifau yng Ngheinciau'r Mabinogi a'r chwedlau Arthuraidd Cymraeg nas ysgrifennwyd ar femrwn tan y 12$^{fed}$-14$^{fed}$ ganrif. Mae eraill wedi eu haddasu a'u diweddaru i'w cyfnod ond yn dal yn seiliedig ar fotifau llawer hŷn. Enghraifft o hyn yw'r chwedl am foddi palas pendefig a ffurfio Llyn Tegid ger y Bala.

**Chwedlau dilyw**

'Roedd tywysog yn teyrnasu ym Meirionnydd mewn ffordd ormesol, a chafodd ei rybuddio gan bŵer goruwchnaturiol y byddai dial yn digwydd pe na byddai'n newid ei ffyrdd. Parhau i gamreoli wnaeth y teyrn, ac yna, un noson mewn gwledd, hedfanodd aderyn bychan i mewn i'r Neuadd fawr a sibrwd rhywbeth yng nghlust y telynor. Hedfanodd yr aderyn allan o'r Neuadd gan gymell y telynor i'w ddilyn. Dilynodd yntau yr aderyn i gopa bryn bellter o'r Neuadd lle y cysgodd ar ôl y daith flinderus. Pan ddeffrodd y telynor y bore canlynol, gwelodd y dyffryn islaw wedi ei orchuddio gan ddŵr, a'r dŵr hwnnw bellach yw llyn Tegid (Isaac, 1938).

Mae nifer o chwedlau lleol Cymreig fel hon am lifogydd a dilyw i esbonio sut y ffurfiwyd amryw o lynnoedd ar hyd a lled Cymru, a chodiadau trychinebus yn lefel y môr. Maent yn digwydd o ganlyniad i esgeulustod, fel anghofio rhoi'r caead yn ôl ar Ffynnon Grasi roddodd inni Lyn Glaslyn ger Y Ffôr (Myrddin Fardd, 1908), neu yn gosb am weithredoedd drwg. Pwysigrwydd chwedl llyn Tegid yw mai aderyn bach a ddaeth â'r neges i'r telynor – enghraifft o bosib o aderyn o'r Arall Fyd, fel sy'n ymddangos yn rhai chwedlau Cymreig.

Mae straeon o'r fath i'w cael ar draws y byd. Mae stori'r dilyw yn yr

Hen Destament (Genesis), a chyswllt y gigfran a’r golomen â hi. Mae storïau o Dde America am Viracocha gan yr Asteciaid a’r Maya; storïau llwythau brodorol Gogledd America (y Luiseno, yr Huron a’r Iniwit) a chwedlau Mesapotamaidd ac Eifftaidd, i gyd yn sôn am lifogydd a dilyw yn gosb am anfadwaith. Yn wir, mae dros 500 o straeon o’r math wedi eu cofnodi o bob rhan o’r byd (Hancock, 1996), yn cynnwys ein chwedl ni am Gantre’r Gwaelod. Un ddamcaniaeth yw bod llawer o’r traddodiadau hyn wedi eu trosglwyddo ar gof cenhedloedd ers diwedd Oes y Rhew, pan gododd y môr yn go-iawn.

**Adar a chymeriadau hanesyddol**

Mae nifer o chwedlau wedi eu sylfaenu ar gymeriadau hanesyddol. Enghraifft yw chwedl Adar Safadden a gofnodwyd gan y clerigwr Norman-Gymreig, Gerallt Gymro, yn y 12$^{fed}$ ganrif. Ni fyddai adar Llyn Safadden yn canu ond pan fyddai gwir dywysog De Cymru’n gorchymyn hynny. Cerddai Gruffudd ap Rhys lannau’r llyn un dydd gyda dau Arglwydd Normanaidd. Pan orchmynnwyd yr adar i ganu gan yr Arglwyddi Normanaidd, ni chlywyd yr un smic, ond ar orchymyn Gruffudd, fe ganodd yr adar yn uchel gan ddangos pwy oedd y gwir dywysog (Gwyndaf, 1989).

Cymeriad arall pwysig oedd Ifor ap Cadifor (Ifor Bach), Arglwydd Senghennydd, Morgannwg. Safai ei gastell ar safle presennol Castell Coch, y tu allan i Gaerdydd. Yn ôl traddodiad, mae ei drysor wedi ei guddio mewn cell o dan y castell sydd ag agoriad ynddo i dwnnel sy’n arwain o’r hen gastell i Gastell Caerdydd.

> *‘The treasure is guarded day and night by three huge, ferocious eagles. At certain times of the year, their unearthly screams terrorised the countryside and the noise of their flapping wings was like thunder.’ (Gwyndaf, 1989)*

Credir fod grwpiau o ddynion arfog yn yr 17$^{eg}$ a’r 18$^{fed}$ ganrif wedi ceisio dinistrio’r eryrod a hawlio’r trysor, ond cawsant eu trechu gan ymosodiadau ffyrnig, a dychwelyd yn waglaw fu’n rhaid. (Gwyndaf 1989).

Yma eto, mae esiampl o sut yr amddiffynnir safleoedd pwysig gan eryrod, fel y gwnaethant mewn chwedlau cynharach. Ceir cyfeiriad at eryrod gwyn Eryri a godai i’r awyr i rybuddio rhag ymosodiadau gelynion. Byddai curiad eu hadenydd yn codi storm o fellt a tharanau.

Mewn straeon mwy diweddar nid oes gan yr eryr le mor amlwg, mae’n

debyg oherwydd iddo ddiflannu fel aderyn gwyllt o Gymru ganol y 17eg ganrif. Nododd Edward Llwyd, ar ddiwedd y ganrif honno, iddo glywed gan hynafgwyr a gofiai, yn eu hieuenctid, eryrod yn nythu yn Eryri. Gyda'u diflaniad, collwyd yr adnabyddiaeth ohonynt ac hefyd y cymhelliad i greu storïau newydd amdanynt.

Parhaodd yr eryr yn rhan o arfbeisiau amryw o deuluoedd bonedd Cymru, ac arfbais yr hen Sir Gaernarfon. Yn y 1960au, mabwysiadwyd symbol eryr gwyn Eryri gan yr FWA.

**Adar a'r Seintiau**

Ceir hanesyn am Sant Beuno a gollodd ei lyfr Salmau tra'n croesi'r môr o'i eglwys yng Nghlynnog yn Arfon i Ynys Llanddwyn, Môn. Ond daeth gylfinir heibio a phigo'r llyfr i fyny o'r tonnau, a'i osod yn ddiogel ar y lan. Fel gwerthfawrogiad, gweddïodd Beuno ar Dduw i fendithio a gofalu am y gylfinir, a dyna'r rheswm pam y mae mor anodd, hyd heddiw, i ddarganfod nyth y gylfinir (Gwyndaf, 1989).

Hanesyn arall yw'r un am groes Sant Brynach yn Nanhyfer, Penfro. Ystyrir y groes hon yn un o'r tair croes Geltaidd orau o'u bath yng Nghymru, ac wrth hon, ar ddydd Sant Brynach (Ebrill 7fed) y gellir clywed, yn flynyddol, gân y gôg gyntaf i gyrraedd Sir Benfro. Byddai offeiriad yr eglwys yn gwrthod cynnal gwasanaeth cynta'r dydd nes ei fod wedi clywed y gog yn canu. Ar un achlysur, 'roedd yr aderyn yn hwyr iawn yn cyrraedd, a phan gyrhaeddodd, fe ganodd am ychydig amser oherwydd blinder llethol cyn syrthio'n farw. Cân y gog yw'r arwydd cyntaf fod y gwanwyn wedi dod.


*Croes Nanhyfer*

**Y 19eg ganrif**

Daeth casglu chwedlau gwerin yn ffasiynol iawn yn hanner olaf y 19eg ganrif, yn enwedig ymysg y rhai oedd ag amser i wneud hynny, megis offeiriaid yr Eglwys. Cydnabyddir hynny gan D. Gwenallt Jones: *'This collecting was the most important of the contributions of the last century'* (Evans, 1981).

Anogaeth gref i rai oedd y gwobrau hael a gynigid mewn eisteddfodau mawr a bach (e.e

*Trafodion Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Ffestiniog*, 1898) am y casgliad gorau o lên ac arferion gwerin, hanes lleol, a'r goruwchnaturiol yn gyffredinol. Yn ystod y cyfnod 'rhamantaidd' yma, 'roedd rhai pobl yn troi eu golygon oddi wrth newidiadau diwydiannol a chymdeithasol mawr (a phechadurus yn aml) eu dydd ac yn chwilio am yr hen Oes Aur a fu. Dyma gyfnod o gasglu, dosbarthu a chofnodi popeth gan amaturiaid brwd. Digwyddai hyn ym myd natur hefyd, yn ogystal ag ymysg casglwyr a chofnodwyr y traddodiadau hynod a ddaliai'n fyw ar leferydd gwerin gwlad.

O ganlyniad, ymddangosodd erthyglau diddorol niferus yng nghylchgronau lluosog y cyfnod hwn. Cylchgronau Cymraeg megis '*Cymru Fu', 'Yr Arweinydd'*, *'Y Brython',* a rhai Saesneg megis *'Folklore'* a *'Bygones'.* Byddai ymchwil i'r holl chwedlau sy'n cyfeirio at adar yn ystod y 17$^{eg}$, 18$^{fed}$ a'r 19$^{eg}$ ganrif yn haeddu traethawd arall. Ni ellir ond crybwyll rhan fechan o'r drysorfa hon yma.

Cyhoeddwyd rhai o'r traethodau eisteddfodol yn llyfrau, rhai yn cynnwys canlyniadau ymchwiliadau ychwanegol, ac eraill yn ail-gyhoeddi'r casgliadau gwreiddiol. Byddid wedi mynd i gryn drafferth i ddarganfod a chofnodi'r chwedlau a'r storïau hyn na fyddent wedi gweld golau dydd fel arall. Byddai'r wybodaeth wedi ei cholli am byth heb ymdrechion y casglwyr hyn.

Mae dyddio tarddiadau chwedlau a storïau fel y rhain yn amhosibl oherwydd mai ar lafar y'u trosglwyddwyd o un genhedlaeth i'r nesaf. 'Roedd adrodd stori yn ddawn a ystyrid yn un arbennig gan y werin wledig ac roedd yn sicr yn ddifyrrwch i'r plant. Dros amser, trodd credoau cyntefig yn ofergoelion, ac yn rhan bwysig o'n diwylliant gwerin. Daeth rhai yn goelion tywydd a thymor, a llawer yn dod yn fwy cofiadwy drwy eu trosi'n rhigymau, hwiangerddi, caneuon a phenillion. Gwelwn lu o'r cynhyrchion hyn mewn gwahanol gyhoeddiadau (Evans, 1981).

Dyma flas ar rai ohonynt:

**Y gog**

Bu'r gog, â'i chysylltiad â dyfodiad y gwanwyn, yn destun sawl pennill:

*'Fy amser i ganu yw Ebrill a Mai,*
*A hanner Mehefin, chwi wyddoch bob rhai,*
*I ffwrdd yr af ymaith, fy nghywion sydd fân,*

*A chyn dydd Gŵyl Ifan*
*Fe dderfydd fy nghân'.* *(dydd Gŵyl Ifan – Mehefin 24ain)*

Mae clywed cân y gog yn gynnar ym mis Ebrill yn golygu cynhaeaf da:

*'Mis cyn Clamai, cân y coge,*
*Mis cyn Awst y cana inne'. (Lewis, 1995)*

(Yng Nghymru, ystyrid *Clamai* oddeutu 12/13 o Fai, yn hytrach na Chalan Mai y calendr newydd (1752) sydd ar Fai 1af).

Yn ogystal â darogan cynhaeaf da â'i chanu cynnar, fe'i hystyrid yn aderyn proffwydol hefyd. Fe allai'r gog, er enghraifft, broffwydo sawl blwyddyn fyddai yna cyn i ferch briodi, sawl plentyn fyddai pâr priod yn ei gael, a sawl blwyddyn oedd gan unigolyn weddill ei oes. Byddai'r ateb yn dod pe bai'r rhai oedd yn gofyn y cwestiwn yn clywed cân y gog (Lewis, 1995).

'Roedd clywed cân y gog yn adlais o rinweddau adar yr Arall Fyd, a'i chlywed am y tro cyntaf yn y flwyddyn yn penderfynu tynged yr unigolyn weddill y flwyddyn. 'Roedd cael arian mewn poced pan glywid y gog gyntaf yn golygu lwc dda, cyfoeth a iechyd am weddill y flwyddyn, tra'r oedd bod heb arian yn eich poced yn golygu blwyddyn anlwcus, tlodi a salwch. Roedd clywed y gog yn eich gwely yn golygu diogi a salwch am y flwyddyn (Davies, 1911).

Cred arall ddiddorol (a braidd yn rhyfeddol) yw'r un lle dilëir poen cefn a phob diogi, pe gorweddid ar laswellt a rhowlio drosodd dair gwaith wrth glywed cân y gog (Lewis, 1995). Mae'n anodd deall sut mae credoau ac ofergoelion fel hyn yn cychwyn. Yn yr achos hwn, mae'r tair gwaith yn berthnasol am i'r ffigwr hwn ymddangos mewn cymaint o chwedlau a thraddodiadau Cymreig a thrwy'r byd Celtaidd (King, 1994).

Cafodd nifer o adar eu hystyried yn 'weision' i'r gog am mai nhw fyddai'n magu ei chywion. (Owen, 1887). Ymysg yr adar hyn, mae'r pengam a chorehedydd y waun - ill dau â'r enw gwas y gog. Ac un o enwau amgen llwyd y gwrych yw gwas y gwcw.

Yn y gorffennol, cyn y daeth gwybodaeth am batrymau mudo gwahanol adar, ceid ofergoelion ynglŷn â lle'r oedd yr gog yn mynd dros yr Hydref a'r Gaeaf. Mewn rhai ardaloedd, credid ei bod yn cymryd ffurf hebog neu walch glas (maent yn debyg iawn i'w gilydd wrth hedfan) (Lewis, 1995). Cred arall ynglŷn â'i diflaniad oedd bod y gog yn ymweld â

byd tanddaearol y tylwyth teg. (Mackenzie, 1931).

Mewn chwedlau Sgandinafaidd, ystyrid bod y gog yn ymgorfforiad o'r gwanwyn, a chredid pe medrid dal y gog y byddai'n wanwyn a haf parhaol. Yng Nghymru, sonnir am bobl Rhisga yng Ngwent a Dolwyddelan yng Ngwynedd, yn adeiladu gwrychoedd uchel i gadw'r gog rhag diflannu. Ofer dweud mai aflwyddiannus fu'r ymgeision, os bu iddynt ddigwydd o gwbl! (Gwyndaf, 1989).

**Y wennol**

Mae adar eraill hefyd yn cynrychioli'r Gwanwyn. Ar ffïol Roegaidd o'r 5$^{ed}$ ganrif CC, mae tri gŵr yn cyfeirio at wennol yn hedfan, ac un ohonynt yn dweud 'Mae'r gwanwyn yma'.

Yma yng Nghymru, mae dyfodiad y wennol erioed wedi bod yn arwydd fod y gwanwyn wedi cyrraedd, er nad yw gweld *un* wennol yn ddigon –



*Darlun ar ffïol Roegaidd*

'*un wennol ni wna wanwyn'.*

**Arwyddion tywydd**

'Roedd gweld gwenoliaid, fel gweld brain a gwylanod yn hedfan yn isel, yn arwydd fod glaw ar ddod. (Isaac, 1938). Yn wir, mae sail wyddonol i'r gred gan fod uchder yr hedfan, yn enwedig hedfan y gwenoliaid, yn ddibynnol ar bwysedd yr awyr. Gyda phwysedd awyr uchel, bydd y gwenoliaid, a'r pryfetach y maent yn ddibynnol arnynt, yn hedfan yn llawer uwch. Gyda phwysedd awyr isel, bydd y pryfetach a'r gwenoliaid yn cadw'n llawer is, a deuai glaw.

Byddai glaw ar ddod hefyd wrth weld gwylanod yn hedfan i'r mewndir, tra bod eu dychweliad i'r môr yn arwydd o dywydd tecach.

*'Yr wylan fach adnebydd*
*Pan fo yn newid tywydd,*
*Hi hed yn deg ar adain wen*
*O'r môr i ben y mynydd.'* (Isaac, 1938)

Mae'r un peth yn wir am y frân yn broffwyd tywydd, fel y gwelir yn y pennill:

*‘Un frân ar ei hadain tros feysydd,*
*Yn gadael y goedwig a’i nyth,*
*Broffwyda’n ddi-feth am y ddrycin;*
*Daw curlaw, a’r gwyntoedd a chwyth.’* (Isaac, 1938)

Aderyn arall sydd â chysylltiad â’r tywydd yw’r robin goch:

*Os cân y robin ar ben y llwyn*
*Byddwn siŵr o dywydd mwyn,*
*Os cân y robin yn is i lawr*
*Byddwn siŵr o dywydd mawr.*

Ac eto: *Robin goch ar ben y rhiniog*
*Yn gofyn tamaid heb un geiniog,*
*Ac yn dwedyd yn ysmala*
*‘Mae hi’n oer, fe ddaw yn eira.’* (Lewis, 1994)

**Adar y Buarth**

Mae gwyddau, ieir a cheiliogod yn amlwg mewn caneuon a phenillion plant, am eu bod yn adar mor gyfarwydd (gweler Evans 1981).

Byddai’r hen Geltiaid yn cadw gwyddau i amddiffyn eu cartrefi yn y nos am y byddai clegar yr adar yn rhybudd o dresmaswyr. Ganrifoedd wedi hynny, ’roedd ceiliogod yn cael eu cadw nid i amddiffyn y cartref rhag lladron ond yn hytrach rhag ysbrydion drwg:

> *‘Cadw ci i yrru pobl ymaith a chadw ceiliog i gadw ysbrydion drwg draw’ (Jones, 1997)*

Mae’r dywediad hwn yn awgrymu fod cysylltiad rhwng y ceiliog a’r ‘byd arall’. Mae ofergoelion lu yn mynegi fod clywed ceiliog yn canu yng nghanol nos yn rhagfynegi marwolaeth, a bod cyfeiriad pig y ceiliog wrth ganu yn cyfeirio at lle bydd y farwolaeth. (Isaac, 1938)

’Roedd lliw y ceiliog hefyd yn bwysig. Ystyriai rhai fod y ceiliog du yn gysylltiedig ag arferion anfad ac yn ddewis mewn aberth gwrachod. Ystyriai eraill mai y ceiliog gwyn oedd yn ddrwg ac anlwcus.

*‘Na chadw byth yngylch dy dŷ*
*Na cheiliog gwyn na chath ddu.’* (Davies, 1911)

Yn wir, ’roedd ceiliogod o bob lliw a llun yn cael eu cysylltu â dewiniaeth. Mae’n werth dwyn i sylw yma gred gan bobl Cymru

benbaladr, ar un adeg, y byddai'r Tylwyth Teg yn dawnsio yn eu 'cylchoedd' ar nosweithiau golau lleuad, ond byddent yn diflannu 'ar ganiad y ceiliog' (Jones 1780).

Mae rhai coelion yn dweud na fydd wyau gŵydd sy'n gori yn deor os dygir cennin pedr i mewn i dŷ ei pherchennog, ac ni fydd llwyddiant chwaith i wyau iâr sy'n gori os dygir briallu i'r tŷ. Lliwiau'r blodau sy'n cyfrif yma: maent yr un fath â lliwiau'r cywion, ac wrth i'r blodau wywo, bydd hyn yn effeithio'n ddrwg ar ddeoriad y cywion.

**Rhodri Dafydd**

(i'w barhau…)

**Llyfryddiaeth**


Myrddin Fardd, *Llên Gwerin Sir Gaernarfon* (1908)

Hancock G, *Fingerprints of the Gods* (1996)

Isaac D, *Coelion Cymru* (1938)

Gwyndaf R, *Chwedlau Gwerin Cymru* (1989)

Jones, E.J., *A relation to the apparition of Spirits in Monmouthshire and Wales* '(1780), yn Jones, D.G. (1930) *Welsh Folklore and Folk Custom*

Evans, J.G., *Llyfr Hwiangerddi y Dref Wen* (1981)

Lewis, D.E., *Y Gog, Llafar Gwlad 48* (1995)

Davies, J.C., *Folk lore of West and Mid Wales* (1911)

King, J., *The Celtic Druid's Year- Seasonal Cycles of the Ancient Celts* (1994)

Mackenzie, D.A., *Scottish Folklore and Folk Life* (1935)

Jones, Ted Breeze, *Adar Dof Cymru Fu* (1997)


## Gweilch Glaslyn yn Dathlu Degawd

Yn 2012, ar ôl ymadawiad yr RSPB â Phont Croesor, daeth criw bychan o gefnogwyr lleol at ei gilydd i sefydlu Bywyd Gwyllt Glaslyn, elusen annibynnol ddwyieithog i warchod a hyrwyddo Gweilch y Pysgod yn nyffryn Glaslyn. Yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf, mae'r elusen wedi mynd o nerth i nerth, ac erbyn hyn, y mae yn agos i 200,000 o bobl wedi ymweld â'r Ganolfan.

Eleni, am y pedwerydd tymor ar bymtheg, y mae'r iâr breswyl (a enwir yn Mrs G gan rai dilynwyr) wedi dychwelyd i'r dyffryn. Hi ydi'r walches y pysgod fwyaf llwyddiannus ac enwocaf yng Nghymru.


Pwy ydi Mrs G? Ychydig a wyddom am ei hanes cynnar gan nad yw wedi ei modrwyo. Un ddamcaniaeth gynnar oedd ei bod wedi deor mewn nyth cyfagos anhysbys, ond mae'n fwy tebygol mai aderyn o Sgandinafia neu'r Alban ydi hi. Efallai na chawn ni byth wybod - oni bai y gall profion DNA ar ei chywion ddatgelu mwy o wybodaeth, maes o law.

Dros y blynyddoedd, mewn nyth sydd 25m i fyny ffinydwydden, y mae

hi, a dau gymar gwahanol yn eu tro, wedi magu nythaid ar ôl nythaid o gywion, a phrin ydi'r blynyddoedd pan wnaeth y nyth fethu neu'r cyw farw.

Gyda'i chymar cyntaf, Ochre 11(98), magodd 26 o gywion, ond ni ddychwelodd o yn 2015, ac er i sawl walch gwryw alw heibio'r nyth, ychydig o ddiddordeb a ddangosai'r iâr yn yr un ohonynt.

Ond, diolch byth, yn hwyr ym mis Ebrill, daeth gwalch ifanc heibio a dal ei llygad. Rhoddwyd yr enw Aran ar y ceiliog newydd di-fodrwy hwn. Yr oedd pryder ei bod yn rhy hwyr yn y tymor iddyn nhw fridio, ond fe lwyddon nhw i fagu dau gyw. Erbyn hyn, y maent wedi magu 18 cyw gyda'i gilydd.



*Gwalch ifanc yn Senegal*
*Ionawr 2022*
*(llun: Joanna Dailey)*

***Jwbili Euraidd!***

Yn oriau mân bore Iau, 26ain Mai, 2022, deorodd 50fed cyw Mrs G, ac erbyn dechrau Mehefin, yr oedd tri chyw wedi deor ar nyth Glaslyn.

Pan welwyd Mrs G ar nyth Glaslyn yn 2004, ychydig a wyddem am yr effaith a gâi hi ar ddyfodol gweilch y pysgod y tu hwnt i ddyffryn Glaslyn. Mae ei genynnau bellach wedi eu lledaenu ar draws gwledydd Prydain, ac mae'n debygol bod o leiaf saith o gywion Mrs G yn bridio yn yr Alban a Gogledd Lloegr. Gwyddom i sicrwydd ei bod yn nain i 112 o or-gywion ac yn hen-nain i ddeg o or gor-gywion. Etifeddiaeth anhygoel! Am ryw reswm, er bod nifer o'i hepil wedi ymweld â nyth Glaslyn dros y blynyddoedd, nid oes yr un wedi ymgartrefu a magu yng Nghymru, hyd y gwyddom. Serch hynny, hi yw'r walches hynaf a mwyaf llwyddiannus sy'n dal i fridio - nid yn unig yng Nghymru, ond yn holl wledydd Prydain.

Bob blwyddyn, yn gynnar ym mis Medi, bydd Mrs G, Aran a'r cywion (yn annibynnol ac ar wahân i'w gilydd) yn ymgymryd â thaith fudo o tua 3,000 o filltiroedd i Orllewin Affrica. Ni wyddon eu hunion lwybr, ond mae tystiolaeth lloeren yn dangos fod y rhan fwyaf o weilch Prydain yn croesi'r


Llun: Bywyd Gwyllt Glaslyn

Sianel am Ffrainc, ac ar draws Bae Biscay i Ogledd Sbaen, tra bo eraill yn dilyn arfordir yr Iwerydd. Yn 2010, mi welwyd un o gywion Glaslyn yn hedfan uwchben Llyn Zurich sy’n llawer mwy i’r dwyrain. Er bod ychydig o’r adar yn gaeafu yn Sbaen a Phortiwgal, mae’r mwyafrif yn mynd un cam ymhellach, sef i Foroco. Mae’n bosib eu bod nhw’n oedi o gwmpas mynyddoedd yr Atlas am ychydig, cyn dechrau ar y daith o dri neu bedwar diwrnod ar draws anialwch y Sahara. Nid oes syndod bod y gyfradd marwolaethau yn uchel, gyda hyd at 70% o adar ifanc yn trengi yn ystod y ddwy flynedd gyntaf. Y mae nifer o ddisgynyddion Mrs G, gan gynnwys Glas KC4 (un o gywion 2020) wedi’u gweld yn gaeafu yn Senegal.

Rydym wedi amcangyfrif bod taith Mrs G nôl a blaen i Gymru dros yr holl flynyddoedd yn gyfwerth â theithio rownd y byd bedair gwaith a hanner!

***Cyfnod anodd***

Cafodd yr elusen lawer digwyddiad cofiadwy yn ei hanes, ond ni chaed y melys heb y chwerw. Ym mis Mawrth 2020, fe ddaeth Covid, ac ni chaniatawyd i’r Ganolfan Ymwelwyr agor. Dim ymwelwyr, dim incwm!

Penderfynwyd mai’r unig ffordd i’r elusen oroesi oedd addasu a pharhau â’r gwaith o ymgysylltu â phobl mewn ffyrdd newydd, a denu cynulleidfa ehangach, gan gynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol – trwy ffrydio byw, Facebook, Trydar, Sgwrsio Byw, siop ar-lein a chynnal sesiynau Cwestiwn ac Ateb. Cafwyd cefnogaeth gref gan

wylwyr o bell ac agos, a negeseuon dirifedi yn ystod y Cyfnod Clo, yn dweud fod gwylio helyntion Mrs G, Aran a'r cywion ar y nyth wedi bod yn gysur ac yn achubiaeth iddynt yn ystod unigrwydd cyfnod hir y pandemig.

Yn Awst 2020, penderfynwyd lansio apêl i godi arian er mwyn uwchraddio'r camerâu ar nyth Glaslyn a moderneiddio'r cyfrifiaduron. Drwy haelioni'r dilynwyr, llwyddwyd i godi bron i £40,000 erbyn diwedd Medi 2020.

Erbyn Mawrth 2021, yr oedd cyflenwad trydan wedi ei gysylltu â safle'r nyth (i gefnogi'r paneli solar), prynwyd camera 4K newydd ar gyfer y nyth, ac uwchraddiwyd y ddarpariaeth ffrydio byw. Gyda'r system benigamp hon, yr oeddem yn barod i ddarlledu hynt teulu nyth Glaslyn yn ei ogoniant o'r Ganolfan Ymwelwyr ac ar-lein. Ond nid felly y bu hi...

Ym mis Mai, toc cyn i'r trydydd cyw ddeor, anafodd Aran ei adain dde, ac yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwnnw, ni allai bystoga i ddarparu bwyd i'r cywion ifanc. O ganlyniad, ac er mawr tristwch, fe drengodd y tri chyw cyn eu bod yn wythnos oed. Ar sail cyngor arbenigwr, buom yn cynnal Aran drwy ddarparu brithyll ffres yn ddyddiol ar lwyfan gerllaw'r nyth (diolch i ddau bysgotwr lleol), a hynny am bron i chwe wythnos.

A fyddai ein hymdrechion yn achub Aran? Un min nos bythgofiadwy, ar ddiwedd Mehefin, glaniodd Aran ar nyth Glaslyn gyda brithyll - o'r diwedd, y dystiolaeth yr oeddem ei hangen ei fod yn gallu pysgota'n annibynnol. Aeth o nerth i nerth wedi hynny, ac yr oedd yn holliach erbyn iddo ein gadael ym mis Medi. Yr oedd pob gobaith y deuai'n ôl i'r dyffryn yn 2022!

***Ymlaen!***

Ym mis Awst 2021, er gwaetha'r siom o golli'r cywion, a'r gostyngiad sylweddol oherwydd Covid yn y niferoedd oedd yn ymweld â'r Ganolfan, penderfynwyd ei bod yn bwysig bwrw 'mlaen â'r cynlluniau a gychwynnwyd yn 2019 ar gyfer cuddfan newydd.

Yr oedd olion pendant o obaith yn y dyffryn. Gwelwyd 19 gwalch y pysgod gwahanol yn hedfan uwchben yn ystod y tymor, gyda nifer o'r rheiny yn weilch ifanc a anwyd mewn nythod yng Nghymru. Yr oedd gwir angen llwyfan gwell a phwrpasol i wylio'r gweilch yn yr awyr uwchben Pont Croesor ac ar y nyth. Cymhelliad ychwanegol oedd bod pâr ifanc newydd wedi ymgartrefu ar nyth Cyfeillion y Gweilch, dafliad carreg o Bont Croesor, a'u bod wedi magu un cyw yn llwyddiannus. Ar y 1af o Awst



2021, lansiwyd Apêl Cuddfan Newydd, ac erbyn dechrau Tachwedd, fe godwyd dros £35,000.

Ym mis Ionawr 2022, dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu'r guddfan, ac fe'i cwblhawyd mewn da bryd i groesawu'r ymwelwyr cyntaf ar ddiwedd mis Mawrth.

Y mae'r guddfan newydd ar lannau afon Glaslyn yn fan gwylio ardderchog i wylio anturiaethau nyth Glaslyn a nyth Pont Croesor eleni.

Ar yr 2il o Orffennaf, daeth Iolo Williams i agor y guddfan newydd. Ei henw yw 'Cuddfan John Parry' er cof am JP, ffrind annwyl a thriw i weilch Glaslyn ar hyd y blynyddoedd.

Hoffai Bywyd Gwyllt Glaslyn ddiolch i Gymdeithas Ted Breeze Jones am noddi'r guddfan a mainc JP.

**Gwenan Williams**

**Gweilch Pysgod Y Glaslyn**

*Aderyn fu'n ddieithryn ddaeth yn ôl*
*I aelwyd chwedloniaeth,*
*Wedi'r trai mae'n dod i'r Traeth,*
*I lanw ei olyniaeth.*

*Cuddiedig fu'r nyth o frigau ddoe*
*Ger 'Foel Ddu' a'i chreigiau,*
*Heddiw, mae'r holl adnoddau*
*Yma i ni eu mwynhau.*

*Daeth Mrs G'n nain i'w llinach, a'i nyth*
*Roes sawl nyth ymhellach,*
*Â'r sôn am ei chywion iach*
*Bu'r gawres heb ragorach.*

*Hedfan ymhen mis a hanner, a dod*
*Fesul dydd i gryfder,*
*Byr yw'r Haf sy'n hwb i'r her*
*O hedeg tros fôr â hyder*

*'Madael yn Awst a mudo i osgoi*
*Ias Gaeaf digroeso,*
*Ond swyn y gwanwyn gano*
*A'u denu'n frwd i'w hen fro.*

**Huw Dafydd, Mai 2022**


Cuddfan John Parry